**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru.**

**Adroddiad y Pwyllgor (2) 02-07**

Mae Gweinidogion Cymru'n ddiolchgar am yr adroddiad hwn.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi ymateb yn bositif i'r adroddiad ac y mae wedi datblygu ei chynllun moderneiddio 'Amser i Wneud Gwahaniaeth' sy'n allweddol i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol o nodir.

Mae'r corff yn wynebu amrywiaeth o broblemau cymhleth ac anodd ond mae'n mynd rhagddo i roi'r cynllun ar waith, ac er na fydd pall ar bwysau'r galw ar yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol, bydd yn anelu at gyflawni'r newidiadau hyn erbyn y dyddiadau targed ac yn hynny o beth, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei chefnogi ac yn ei monitro.

Mae Gweinidogion Cymru'n croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r wyth argymhelliad yn yr adroddiad.

**(i)** Bu llywodraethu mewnol aneffeithiol oddi wrth Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys, yn draddodiadol, peidio cyfarfod yn ddigon aml i roi sylw i bryderon sylweddol am berfformiad a rheolaeth. Er bod gwelliannau bellach ar y gweill, mae gwersi pendant i'w dysgu o'r ffaeleddau llywodraethu a ddylid eu cymhwyso fel rhan o adolygiad Llywodraeth y Cynulliad i lywodraethu yn y GIG. **Yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r diffygion llywodraethu, perfformiad a rheolaeth ariannol o fewn yr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru a chynnwys yn ei adolygiad gyfarwyddyd eglur am y lleiafswm o ran amlder y dylai byrddau gyfarfod.**

Derbyniwyd.

Ym mis Ebrill 2006, gyda chymorth Archwilydd Cyffredinol Cymru, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad y "Prosiect Llywodraethu Iechyd". Pwrpas y prosiect yw helpu i wella safonau'r gofal iechyd a ddarperir gan GIG Cymru. Gwneir hynny trwy hybu a datblygu trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn wrth i'r GIG esblygu i wynebu sialensiau'r dyfodol. Fel rhan o'i waith, mae Tîm y Prosiect yn dysgu ac yn rhannu gwersi adroddiad y Swyddfa Archwilio; ac mae'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i'w helpu a'i chynghori ar faterion llywodraethu wrth i'r Ymddiriedolaeth fynd â'i gwaith rhagddo. Bydd cyngor clir ar faint o gyfarfodydd y dylent eu cynnal yn cael ei roi i Fyrddau fel rhan o'r Prosiect.

O ran rheoli perfformiad a rheoli cyllid, mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n gwneud nifer o newidiadau i'r drefn adrodd a monitro ariannol. Yr un pryd, mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cychwyn ar raglen o hyfforddi a datblygu, gyda Swyddfa Archwilio Cymru a'r HFMA, er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau'r bwrdd a'r pwyllgorau archwilio. Hwylusir y gwaith hwn gan y gwersi a ddysgwyd o adroddiad y Swyddfa Archwilio ar Wasanaethau Ambiwlans Cymru, yn ogystal â phrofiadau mewn mannau eraill.

**Amserlen Llywodraeth y Cynulliad**; Rhagfyr 2007

**(ii)** Mae llywodraethu allanol wedi methu rhoi sylw i broblemau gwybyddus yn ddigon da nac yn ddigon buan. Fe ymddengys fod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yr un prinder dulliau i ymyrryd mewn sefydliadau sy'n methu ag sy'n bodoli yn Lloegr. **Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried posibiliadau cyflwyno'r syniad o femoranda dealltwriaeth rhwng ymddiriedolaeth a Llywodraeth y Cynulliad er mwyn ffurfioli perthnasoedd gweithio o ddydd i ddydd. Byddai trefniadau o'r fath yn hwyluso gweithredu mwy pendant pan fo sefydliad yn amlwg yn methu. Pa ddulliau bynnag sydd wedi'u sefydlu, rhaid i benderfyniadau i'w defnyddio gael eu gwneud yn sydyn. Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu ei ymyriad a'i weithdrefnau rheoli perfformiad i ddysgu oddi wrth fethiannau i fynd i'r afael â phroblemau amlwg yn ddigon buan yn yr achos hwn.**

Derbyniwyd.

Rydym wrthi'n ymchwilio i'r syniad o femoranda dealltwriaeth â sefydliadau'r GIG ac os gwelir eu bod yn briodol, cânt eu cyflwyno er mwyn i ni allu ymyrryd yn effeithiol yn achos sefydliadau sy'n methu. Mae'r Gweinidog wrthi'n mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi dechrau cryfhau'r elfen rheoli perfformiad a darparu, gan gynnwys y Swyddfeydd Rhanbarthol, trwy greu Cyfarwyddiaeth Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cadw llygad barcud ar berfformiad y GIG, gan gynnwys WAST, a bydd yn parhau i ddatblygu'i threfniadau ymyrryd a rheoli perfformiad, yn enwedig mewn achosion lle mae perfformiad yn ddiffygiol.

**Amserlen Llywodraeth y Cynulliad;** Mae camau'n cael eu cymryd yn y maes hwn, a rhagwelir, gyda phenodi'r Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad, y llwyddir i wneud hyn erbyn mis Mawrth 2008.

**(iii)** Bu diffygion sylfaenol rheoli ac arweiniad trwy'r Ymddiriedolaeth. Yr oedd y rhain yn amlwg trwy reolaeth wael o bobl, o broblemau diwylliannol a methiant tymor hir i droi strategaethau yn weithredu ymarferol. **Yr ydym yn argymell fod yr Ymddiriedolaeth yn llunio rhaglen ddatblygu rheolwyr i roi sylw i broblemau dwfn ar bob lefel, gyda ffocws penodol ar reolwyr llinell union. Dylai'r rhaglen gynnwys gosod amcanion personol, gwneud adolygiadau**

**datblygu personol a materion rheoli perfformiad. Dylai hefyd gynnwys prosiect cymwyseddau rheoli craidd a rheoli rhaglenni.**

Derbyniwyd.

Mae Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth yn ymdrin â'r materion hyn. Mae WAST wrthi'n sefydlu system datblygu ac arfarnu rheolwyr. Bydd iddi amcanion clir a bydd wedi'i chysylltu â'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (FfGS). Mae Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i roi'r FfGS ar waith. Bydd yr Is-adran Datblygu NLIAH (yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd) yn cynnig cymorth i ddatblygu rheolwyr ac aelodau'r Bwrdd.

Yn unol â'r Cynllun Moderneiddio, mae swyddfa wedi ei sefydlu bellach i ddarparu rhaglenni arbenigol er mwyn cynorthwyo a hyfforddi staff allweddol mewn sgiliau rheoli prosiectau a rhaglenni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ei rhaglen foderneiddio gan ddefnyddio methodoleg arferion gorau fframwaith rheoli rhaglenni Swyddfa Masnach y Llywodraeth, sef yr "MSP" (Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus). Mae'r weithrediaeth yn cael adroddiadau rheolaidd am hynt y gwaith, am y materion sy'n dod i'r amlwg, am y camau nesaf a'r blaenoriaethau.

Bydd yr Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol yn cynorthwyo WAST i ddatblygu ac i gryfhau ei threfniadau gweithredol ac atebolrwydd ei gwaith llywodraethu clinigol.

**Amserlen Llywodraeth y Cynulliad;** Mae'r gwaith hwn yn flaenoriaeth. Penodwyd Cyfarwyddwr newydd Gofal heb ei Drefnu, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu fframwaith llywodraethu clinigol. Mae Dogfen Cychwyn Prosiect wedi ei datblygu ac mae cynllun cyflawni'r rhaglen wedi ei gwblhau.

**Amserlen WAST:** Prif amcanion y prosiect yw:

1. Cyflwyno system o ddatblygu proffesiynol parhaus (DPP) a fydd yn cynnwys cofnodi cynlluniau datblygu personol (CDP), gan sicrhau ei bod yn ateb gofynion amryfal sefydliadau proffesiynol y staff (ee y Cyngor Proffesiynau Iechyd) - *wedi'i chroesgyfeirio â thema strategol 1 yn yr AIWG, nod 2.1.3, amcan 1. Bydd (HRP005) wedi ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2008*.
2. Clustnodi prosesau Adolygu Datblygiad Personol (ADP) ar gyfer staff gweithredol, yn unol â'r strwythurau rheoli newydd ac â'r amcanion uned yr awr erbyn mis Mehefin 2007 - *wedi'i chroesgyfeirio â thema strategol 5 yn yr AIWG, 'Trefniadaeth a Datblygu Staff': Nod 2.5.4: Amcan 8. Cwblhawyd.*
3. Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gweithredol a chynorthwyol FfGS, ADP a chynllun datblygu personol (CDP) 12 mis ar ôl ymaelodi â'r A4C. Mae penodi Arweinwyr Tîm ym mhob lleoliad yn rhan bwysig o'r broses

hon. - *wedi'i chroesgyfeirio â thema strategol 5 YN yr AIWG, 'Trefniadaeth a Datblygu Staff': Nod 2.5.4: Amcan 9. Bydd (HRP005) wedi ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2008*.

4. Mabwysiadu'r e-FfGS fel erfyn rheoli perfformiad i gofnodi amcanion personol a phroffesiynol. Bydd (HRP005) wedi ei gyflawni erbyn mis Tachwedd 2007.
5. Casglu'r anghenion hyfforddi sydd wedi'u nodi YN ADPau WAST a phenderfynu sut orau i gyflawni'r anghenion yn y CDPau cyn pen 3 mis ar ôl cwblhau'r ADP - *wedi'i chroesgyfeirio â thema strategol 5 YN yr AIWG 'Trefniadaeth a Datblygu Staff: Nod 2.5.4: Amcan 10*. Bydd (HRP005) wedi ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2008.
6. Nodi costau a dod o hyd i gyllid perthnasol i ariannu FfGS y GIG erbyn mis Mehefin 2007 - *wedi'i chroesgyfeirio â thema strategol 5 yr AIWG 'Trefniadaeth a Datblygu Staff': Nod 2.5.4: Amcan 11*. Cwblhawyd.
7. Rhoi hyfforddiant FfGS/ADP i bob rheolwr ac arweinydd tîm er mwyn cefnogi prosesau'r ADP a DPP. Bydd (HRP005) wedi ei gyflawni erbyn mis Medi 2007.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ail-lansio FfGS y GIG er mwyn codi ymwybyddiaeth amdano ledled WAST, gan wneud hynny yr un pryd ag yr ail-lansir Unedau Moderneiddio Tâl FfGS y GIG.

**(iv)** Mae absenoldeb hirdymor arweiniad effeithiol yn yr Ymddiriedolaeth yn nhermau gallu a medr. Yr oedd newidiadau sydyn a niweidiol iawn wedi digwydd o ran arwain yn y cyfnod rhwng Tachwedd 2005 ac Awst 2006. Efallai nad oedd penodi Prif Weithredwyr Dros Dro wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i addasrwydd unigolion i ymgymryd â'r fath rôl ar sail dros dro. **Yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o'r gwersi sydd i'w dysgu o'r trosiant sydyn yn arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, yn newid ei gweithdrefnau ei hun yng ngoleuni'r adolygiad hwn ac yn dosbarthu canllawiau i'r holl Fyrddau er mwyn osgoi i'r fath sefyllfa ddigwydd eto yn un o gyrff y GIG.**

Derbyniwyd.

Mae'n briodol myfyrio ar yr amgylchiadau a arweiniodd at ymddiswyddiad dau Brif Weithredwr interim ac ystyried pa wersi y mae'r profiad yn eu dysgu i ni. WAST wnaeth y penodiadau, nid Llywodraeth y Cynulliad ond er hynny, bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwneud penodiadau tymor byr ac os gwelir bod angen, caiff arweiniad pellach yn hyn o beth ei roi i'r GIG yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad, ar y cyd â'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (yr NLIAH), wrthi'n datblygu proses recriwtio fwy cadarn ar gyfer prif weithredwyr. Byddant yn pennu safonau uchel er mwyn sicrhau mai dim ond ymgeiswyr o'r radd flaenaf a fydd yn cael eu penodi i sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru. Mae proses yn cael ei phrofi ar hyn o bryd, ac eir ati wedyn, yn

ystod y misoedd nesaf, i'w hadolygu a'i chyhoeddi cyn iddi gael ei rhoi ar waith ledled Cymru.

**Amserlen Llywodraeth y Cynulliad;** Hydref 2007

**(v)** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull gweithredu tymor byr o ran rheolaeth ariannol ac ni fu'n gynaliadwy. Er gwaethaf cyrraedd targedau ariannol, mae'r dull gweithredu hwn yn awr wedi arwain at fod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu sefyllfa ariannol anodd iawn. Bu proses faith iawn o ddatblygu Cynllun Newid Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd (SCEP) i roi sylw i'r sefyllfa ariannol ac yr oedd y Cynllun yn dal heb ei gytuno ar ddechrau Chwefror. Yr ydym yn bryderus am hyfywdra cynllun Mr Murray i wneud arbedion trwy werthu oriau dros ben darpariaeth parafeddygon i Fyrddau Iechyd Lleol ar amser o bwysau ariannol sylweddol yn y GIG. **Yng nghyd-destun strategaeth DECS a newidiadau i gomisiynu gwasanaethau gofal heb ei drefnu, yr ydym yn argymell fod Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'n agos iawn gyflawni'r arbedion arfaethedig, yn benodol y broses werthu gwasanaethau gofal heb ei drefnu ychwanegol gan yr Ymddiriedolaeth i Fyrddau Iechyd Lleol ar amser o wasgedd ariannol sylweddol.**

Derbyniwyd.

Caiff Cynllun Newid ac Effeithiolrwydd y Gwasanaeth ei fonitro bob mis gan Swyddfa Ranbarthol y Gogledd. Nid yw’r cynnig i werthu gwasanaethau gofal heb eu trefnu i'r Byrddau Iechyd Lleol, a oedd wedi ei gynnwys yn yr SCEP drafft, wedi ei gynnwys yn y fersiwn derfynol y cytunwyd arni. Roedd nifer o newidiadau wedi'u gwneud i’r cynllun drafft y cyfeirir ato yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau cadarn yn eu lle i fonitro targedau ariannol. Cyrhaeddodd y Gwasanaeth Ambiwlans ei darged ariannol ar gyfer 2006/07.

**Amserlen WAST:** O dan Strategaeth Foderneiddio yr Ymddiriedolaeth, sef 'Amser i Wneud Gwahaniaeth' (AIWG), ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu cynlluniau gweithredu cadarn a manwl ar gyfer pob gweithgaredd lleihau costau erbyn mis Ebrill 2007.

Hefyd, o dan yr AIWG, ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth i lunio ac i gadw at brif gynllun ariannol strategol a fydd yn cysylltu rhagolygon refeniw a chyfalaf blynyddol yr Ymddiriedolaeth dros nifer o flynyddoedd ac yn ymgorffori effaith moderneiddio a newidiadau strategol.

Mae’r ddau gam hyn wedi eu cwblhau.

**(vi)** Mae defnydd gwael o gyfalaf sydd ar gael wedi arwain at broblemau difrifol gyda seilwaith yr Ymddiriedolaeth, a chyfres o gaffaeliadau sydd wedi methu. Cawsom ein synnu gan y problemau caffael a ddaeth i'r amlwg yn 2006 oedd yn gyfrifoldeb dau o'r Prif Weithredwyr Dros Dro. Yn benodol, yr oeddem wedi'n arswydo fod un o'r Prif Weithredwyr Dros Dro wedi mynd at gyflenwr yn uniongyrchol. **Yr ydym yn argymell fod yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu cynllunio cyfalaf cadarn, trefniadau rheoli a llywodraethu i sicrhau fod cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ond gyda rhyw gymaint o reolaeth briodol. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio canlyniadau ei adolygiad ar gaffael i rannu i'r GIG yn ehangach wersi o ran caffael gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.**

Derbyniwyd.

Mae WAST wedi rhoi trefniadau cynllunio cyfalaf cadarn ar waith. Caiff uwch-reolwyr eu henwebu i fod yn bersonol atebol am bob prosiect cyfalaf a byddant yn cael eu dwyn i gyfrif mewn cyfarfodydd wythnosol o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid interim. Bydd swyddogion Cyllid, Caffael a Rheoli Rhaglenni cymwys a phrofiadol yn rhoi cymorth i'r uwch-reolwyr hyn.

Rhan o ddiben y cyfarfodydd wythnosol yw mynd i’r afael â phroblemau, a sicrhau bod uwch-reolwyr atebol yn cael eu hyfforddi yn yr agweddau hynny ar brosiectau caffael sy’n gysylltiedig â rheolaeth ariannol ac â llywodraethu.

Trosglwyddwyd elfen gaffael gwaith yr Ymddiriedolaeth i "gyd-wasanaeth" o'r enw Partneriaeth Cymorth Busnes Gogledd Cymru (PCB) o fis Ebrill 2007 ymlaen. Yn ben ar y Bartneriaeth hon y mae Pennaeth Caffael a chanddo gymwysterau proffesiynol, ac mae holl staff y Bartneriaeth yn cael eu hannog a'u helpu i gael hyfforddiant proffesiynol. Bydd yr arbenigedd caffael yn y Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl nwyddau a gwasanaethau y bydd eu hangen yn cael eu caffael mewn ffordd mor effeithiol â phosibl.

Unwaith y bydd y PCB wedi cael ei thraed oddi tani, bydd yr Ymddiriedolaeth, trwy ei chytundeb lefel gwasanaeth, yn ceisio sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i hyfforddi staff yn lleol er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn dod i wybod am y drefn gaffael newydd.

Ar gyfer cynlluniau cyfalaf mawr, bydd pob achos busnes a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad yn disgrifio'r strategaeth gaffael a'r trefniadau ar gyfer rheoli'r rhaglen, a bwriedir edrych arnynt yn ystod y broses graffu.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn nodi ac yn dysgu'r gwersi a ddysgwyd o adroddiad archwilio PricewaterhouseCoopers, a bydd yn eu lledaenu i rannau eraill y GIG.

**Amserlen Llywodraeth y Cynulliad;** Hydref 2007.

**Amserlen WAST;**

O dan yr AIWG, ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth i drosglwyddo elfen gaffael ei gwaith i "gyd-wasanaeth" o'r enw Partneriaeth Cymorth Busnes Gogledd Cymru (PCB). Daeth hwn yn weithredol ym mis Ebrill 2007.

Hefyd o dan yr AIWG (2.4.1.5), ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth, drwy adolygu'r prosesau busnes mewnol a darparu hyfforddiant ychwanegol, i wella'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ar gyfer asesu opsiynau.

Cwblhawyd y ddau gam hyn cyn pryd ac maent wedi eu rhoi ar waith.

**(vii)** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi methu cydweddu adnoddau a galw. Her bwysig fydd cytuno ar restr ddyletswyddau a phatrymau sifftiau newydd gyda'r Undebau Llafur, yn ogystal â newid i egwyl prydau bwyd sy'n gyson â'r cytundeb *Agenda ar gyfer Newid* cenedlaethol. Mae'r perfformiad amser ymateb brys yn fwy gwael yn Ne Ddwyrain Cymru nag mewn rhanbarthau eraill. **Yr ydym yn argymell fod yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu rhestr ddyletswyddau a phatrymau sifftiau newydd cyn gynted ag sy'n bosibl, gyda ffocws arbennig ar gyflawni cydweddu mwy priodol rhwng galw a'r cyflenwad yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru.**

Derbyniwyd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau edrych ar batrymau sifftiau'r staff ac ar lefelau'r galw a ragwelir. Bydd gwneud hyn yn ei helpu i sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yn gallu darparu gwasanaeth digonol bob amser. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth newydd drefniadau unigryw ar gyfer egwyliau bwyd di-dâl o dan yr Agenda ar gyfer Newid. Hefyd, fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu patrymau sifft, bydd yn sicrhau bod y rotâu sifft newydd yn golygu bod mwy o ambiwlansys ar gael, yn enwedig yn ystod egwyliau bwyd. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar osod system i reoli egwyliau bwyd ar bob system CAD (Computer Aided Dispatch) er mwyn helpu i reoli'r broses o rannu egwyliau bwyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod wedi ei hymrwymo i sicrhau y bydd rheolwyr yn rhoi sylw manwl i'r maes pwysig hwn. Bydd Swyddfa Ranbarthol y Gogledd, drwy ei rôl rheoli perfformiad arferol, yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa, ac adlewyrchir hyn yn y Fframwaith Rheoli Blynyddol.

**Amserlen WAST:** mae 100% o'r rhestrau dyletswyddau newydd wedi eu datblygu. Mae tua 80% wedi cael eu gweithredu neu ar fin cael eu gweithredu.
Cafodd polisi unigryw ar gyfer egwyliau bwyd, a oedd yn cydymffurfio â gofynion yr Agenda ar gyfer Newid, ei roi ar waith ar 1 Mawrth 2007 ac mae wedi bod yn

gweithio’n llwyddiannus ers hynny. Mae WAST yn dal i fonitro pa mor effeithiol ydyw.

Mae perfformiad yn y De-ddwyrain wedi bod cystal ac, o bryd i’w gilydd, yn well na pherfformiad yn y ddau ranbarth arall, a hynny ar ôl newid yr arweinyddiaeth a phrosesau. Ddiwedd mis Mai 2007, roedd perfformiad y De-ddwyrain yn 65.82%; sef cynnydd o 8% o’i gymharu â pherfformiad ar yr un adeg y flwyddyn flaenorol. Cytunwyd ym mhob rhanbarth ar gynlluniau adleoli diwygiedig, a’u rhoi ar waith, ac mae hyn hefyd wedi gwella’r sefyllfa. (AIWG 2.1.4 paragraffau 1 - 7).

**(viii)** Bu methiant i ganolbwyntio'n ddigonol ar y GGG arferol. Mae bylchau annerbyniol mewn systemau gwybodaeth a methiant i roi sylw i broblemau sylfaenol ac amlwg yn GGG. Gallai hyn arwain at golli contractau pe byddai ymddiriedolaethau gofal llym yn penderfynu mynd allan i dendr, a fyddai'n cael effaith andwyol ar gostau'r Ymddiriedolaeth. **Dylai'r Ymddiriedolaeth roi sylw i'r problemau difrifol gyda'r GGG dros y flwyddyn nesaf yn benodol trwy ddatblygu systemau rheoli newydd, prosesau safonau gwasanaeth a phrosesau datblygu staff sy'n addas at y diben ac sy'n gyson trwy Gymru.**

Derbyniwyd.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) wedi nodi bod moderneiddio Gwasanaethau Gofal i Gleifion (GGG) yn rhan strategol a phwysig o'i Chynllun Moderneiddio. Mae wedi pennu nifer penodol o amcanion ar gyfer GGG, gan gynnwys prynu a gweithredu system gynllunio newydd ar y we i gymryd lle'r pum system sydd ganddi ar hyn o bryd, ac adolygu'r cytundebau lefel gwasanaeth a’r systemau adrodd presennol, ar y cyd â chomisiynwyr a defnyddwyr, erbyn 2008.

Mae'r hyfforddiant gloywi blynyddol ar gyfer staff Gwasanaethau Gofal i Gleifion (GGG), wedi cael ei adolygu. Mae'r rhaglen hyfforddi newydd yn cynnwys symud a thrafod, trosglwyddo cleifion henoed bregus eu meddwl, Llywodraethu Clinigol, Canllawiau Dadebru Cynnal Bywyd Sylfaenol a mynd i’r afael â Thrais ac Ymosodedd. Mae'r hyfforddiant cynefino sy'n cael ei roi i holl staff newydd GGG wrthi'n cael ei adolygu a bydd yn ailddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae staff rheoli canolfannau GGG wrthi'n dilyn cyrsiau ar ofal cwsmer. Bydd strwythur rheoli GGG yn cael ei gyflwyno eleni, a bydd ei bwyslais ar arweiniad ac ar linellau atebolrwydd. Bydd hyn yn fodd hefyd i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant. Bydd cyfarwyddyd a gwybodaeth am offer ar gael i bob aelod o staff trwy'r Fewnrwyd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys polisïau penodol ar waith GGG.

Bydd Swyddfa Ranbarthol y Gogledd Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy ei rôl rheoli perfformiad a thrwy gyfrwng ei phroses adolygu perfformiad, yn cadw golwg ar yr hyn y mae WAST yn ei gyflawni o’i gymharu â’i chynllun moderneiddio.

**Amserlen WAST:** Dylid rhannu'r adran hon yn dri maes. Y cyntaf yw'r system TGCh, yr ail yw strwythur GGG a'r trydydd yw'r contract cenedlaethol GGG. Gan gadw hyn mewn golwg, gweler yr isod

1. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth hysbyseb yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd er mwyn caffael system gyfrifiadurol genedlaethol newydd ar gyfer GGG. Cafodd Achos Busnes Amlinellol mewnol ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 07, a chafwyd cymeradwyaeth i gychwyn y broses. Y nod a'r amcan fydd rhoi system newydd ar waith yn y tri rhanbarth. Bydd (PSCP002) wedi ei gyflawni erbyn mis Tachwedd 2007.

2. Ym mis Mehefin 2007, cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth strwythur rheoli newydd ar gyfer Gwasanaethau Gofal i Gleifion. Bydd yr hyfforddiant diweddaraf, DPP, trefniadau rheoli llinell lleol hygyrch a modelau arwain clir i gyd yn cael eu hymgorffori yn y strwythur arfaethedig, a fydd yn caniatáu i staff sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig anghysbell fod â'r un cysylltiadau â phawb arall. Bydd (PCSP002) wedi ei gyflawni erbyn mis Mai 2008.

3. Mae'r ddogfen gontract safonol gyntaf ar gyfer GGG wedi'i datblygu a chaiff ei defnyddio ar gyfer pob contract newydd yn 2007-08. Bydd yn esbonio sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn sicrhau y bydd pob Ymddiriedolaeth Acíwt yn cael yr un lefel ddiffiniedig o wasanaeth. Er hynny, bydd modd bod yn hyblyg er mwyn mynd i'r afael â datblygiadau lleol neu benodol o safbwynt darparu gwasanaethau. O ganlyniad i ddiddordeb yr Ymddiriedolaethau Acíwt, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ystyried y cysyniad o lunio un contract cenedlaethol i Gymru. Bydd y datblygiad posibl hwn yn digwydd ar yr un pryd ag y bydd y system gyfrifiadurol genedlaethol yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn yn golygu y bydd modd adrodd yn gywir ar sail y safonau ansawdd a gwasanaeth y cytunwyd arnynt. (PCSP002) mis Mai 2008.

Mae Cynllun Busnes yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2007/08 wedi nodi bod datblygu Gwasanaethau Gofal i Gleifion yn un o bedair blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Yn AIWG, yr adran y dylid cyfeirio ati ar gyfer elfennau TGCh yw 2.3. Ei gyfeiriad yw 1.3.